

Rhif: WG21704



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol ar Gasglu Gwastraff Papur, Metel, Plastig a Gwydr ar Wahân

Dyddiad cyhoeddi: **28 Ebrill 2014**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **21 Gorffennaf 2014**

Trosolwg

Paratowyd y canllawiau drafft hyn o dan reoliad 15 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru roi arweiniad ar gyflawni'r dyletswyddau yn rheoliadau 12 i 14.

Mae'r darpariaethau hynny'n trosi erthyglau 10 ac 11(1) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig sy'n ymwneud â sefydlu dulliau casglu ar wahân ar gyfer o leiaf y deunyddiau gwastraff a ganlyn: papur, metel, plastig a gwydr.

Nod yr ymgynghoriad yw sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt gan y canllawiau hyn yn cael cyfle i'w hystyried ac i fynegi barn amdanynt, ac i awgrymu ychwanegiadau neu newidiadau.

Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad at:

Sarah Bonwick
Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
3ydd Llawr, Adain y De
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 821733

Fel arall, gallwch anfon e-bost at:
WasteStrategy@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.wales.gov.uk/consultations

Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE 2008/98/EC
[Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE](#)

Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
www.legislation.gov.uk/ukxi/2011/988/contents/made

Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr)
Diwygio 2012
www.legislation.gov.uk/ukxi/2012/1889/contents/made

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sarah Bonwick
Yr Is-adran Gwastraff ac Effeithlonrwydd
Adnoddau
3ydd Llawr, Adain y De
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: WasteStrategy@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 029 2082 1733

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag,

mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Y Cefndir
3. Diben y Canllawiau Statudol
4. Y Canllawiau Statudol
5. Cwestiynau ymgynghori
6. Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2014, cytunodd Alun Davies, AC, y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, y dylid cyhoeddi, at ddibenion ymgynghori, ganllawiau drafft ar ddyletswyddau sefydliadau ac ymgymeriadau o ran casglu gwastraff papur, metel, plastig a gwydr ar wahân.

Fel man cychwyn, dylid cadw mewn cof fod dyletswydd ar y DU, yn unol ag Erthygl 11(1), paragraff 3 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, sy'n ddarostyngedig i Erthygl 10(2), i sefydlu dulliau o gasglu o leiaf gwastraff papur, metel, plastig a gwydr ar wahân erbyn 2015.

Eir ati yn y canllawiau drafft hyn i amlinellu dull a fydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn galluogi awdurdodau lleol, cwmnïau rheoli gwastraff preifat a mentrau cymdeithasol sy'n casglu, yn cludo neu'n derbyn gwastraff papur, metel, plastig a gwydr i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. O dan Reoliad 13.1, mae dyletswydd arnynt i gasglu o leiaf gwastraff papur, plastig, metel a gwydr ar wahân. Bydd y ddyletswydd hon yn dod i rym o fis Ionawr 2015 ymlaen. Mae'n bwysig bod yr holl systemau casglu gwastraff a sefydlir yn rhai mor syml a diffwdan â phosibl, a'u bod, ar yr un pryd, yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Y Cefndir

Cafodd gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE 2008/98/EC eu trosi gan Lywodraeth Cymru a Defra drwy Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, a thrwy Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012.

Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff, dogfen strategaeth wastraff gyffredinol Cymru yn rhoi amlinelliad o'r nod polisi ar gyfer Cymru i gynhyrchu lefelau uchel o ddeunydd ailgylchu glân i sbarduno marchnadoedd. Mae nod y polisi yn datgan y bydd angen i ddeunydd ailgylchu gael eu gwahanu o'r ffynhonnell, fel eu bod o safon uchel, pryd y bydd pob deunydd yn cael ei gasglu ar wahân, ac i hyn gael ei gyflawni drwy systemau casglu effeithiol i rannu o'r ffynhonnell ar draws pob sector.

Diben y Canllawiau Statudol

Diben y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad clir i sefydliadau ac ymgymeriadau perthnasol er mwyn eu helpu i wneud y penderfyniadau angenrheidiol a fydd yn eu galluogi i gydymffurfio â'r hyn sy'n gyfreithiol ofynnol o dan y rheoliadau mewn perthynas â chasglu'r pedwar deunydd gwastraff a ganlyn ar wahân: papur, metel, plastig a gwydr.

Y Canllawiau Statudol

Canllawiau Statudol ar Gasglu Papur, Metel, Plastig a Gwydr Gwastraff ar Wahân

Cyfeiriadau

Ystyr "y pedwar deunydd gwastraff" yw papur, metel, plastig a gwydr;

Ystyr "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 sy'n ymwneud a gwastraff ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol, fel y'i diwygiwyd;

Ystyr "Rheoliadau Gwastraff 2011" yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012; ac Ystyr "awdurdodau casglu gwastraff" mewn perthynas ag unrhyw sir neu fwrdeistref sirol, yw cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol honno.

Cyflwyniad

1. Bwriad y canllawiau hyn yw goleuo penderfyniadau a wneir gan sefydliadau neu ymgymeriadau sy'n casglu, neu'n cludo neu'n cael y pedwar deunydd gwastraff ("sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol") neu, yn achos awdurdodau casglu gwastraff, sy'n trefnu i gasglu gwastraff, o 1 Ionawr 2015 ymlaen, er mwyn hwyluso a gwella'r modd yr adenillir y pedwar deunydd gwastraff (h.y. ailgylchu o ansawdd uchel). Bydd y sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol yn cynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau preifat sy'n casglu gwastraff a mentrau cymdeithasol sy'n casglu, cludo neu'n cael unrhyw un neu bob un o'r pedwar deunydd gwastraff.
2. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â rheoliadau 13 a 14 o Rheoliadau Gwastraff 2011. Y darpariaethau hynny sy'n trosi Erthyglau 10 ac 11(1) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn gyfraith ddomestig.
3. Mae'n bwysig nodi nad yw Rheoliadau Gwastraff 2011 yn gwahardd defnyddio pob casgliad cymysg o'r pedwar deunydd gwastraff o 2015 ymlaen. Yn hytrach, mae'r Rheoliadau yn sefydlu casglu ar wahân fel y arfer diodyn, ac yn pennu o

dan ba amodau y caniateir i sefydliadau neu ymgymeriadau wyro oddi wrth y arfer hwnnw. Yn hynny o beth, fodd bynnag, mae'r rheoliadau yn gosod trothwy uchel.

4. Nid oes dyddiad penodedig pan ddaw'r canllawiau hyn i ben. Bydd y canllawiau yn cael eu hadolygu os digwydd unrhyw newid mawr yn y gyfraith, er enghraifft unrhyw newid yn y gyfraith Ewropeidd waelodol, neu os daw cyfraith achos newydd i'r amlwg.

Y cefndir cyfreithiol

5. Canllaw statudol i sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol yng Nghymru yw'r ddogfen hon a baratowyd gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru o dan reoliad 15 o Reoliadau Gwastraff 2011. Yn eu tro, mae'r Rheoliadau hynny yn rhoi ar waith ran o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.
6. O dan Erthygl 11(1) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, rhaid i'r DU gymryd camau i hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel, ac er mwyn cyflawni hynny rhaid iddi sefydlu system o gasglu deunyddiau gwastraff ar wahân¹.
7. Gwneir yn ofynnol bod y DU, erbyn 2015, yn sefydlu trefniant i gasglu ar wahân y pedwar deunydd gwastraff o leiaf, yn ddarostyngedig i'r ddau brawf canlynol:
 - a) bod angen sicrhau y rheolir gwastraff yn unol ar Erthygl 4 ac Erthygl 13 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, a bod angen hwyluso neu wella adennill; a
 - b) bod hynny'n ymarferadwy yn dechnegol, amgylcheddol ac economaidd.
8. Yng Nghymru, cyflawnir y rhwymedigaethau hyn trwy Reoliadau Gwastraff 2011 (sef yn benodol, rheoliadau 12 i 14). O 1 Ionawr 2015 ymlaen, mae'r system hon yn gosod dyletswyddau ar yr holl sefydliadau ac ymgymeriadau sy'n casglu'r pedwar deunydd gwastraff ac ar awdurdodau casglu gwastraff wrth iddynt wneud trefniadau ar gyfer eu casglu.

¹ Mae hyn yn ddarostyngedig i'r rhagofynion bod hynny'n 'ymarferol yn dechnegol, amgylcheddol ac economaidd, ac yn briodol er mwyn cyrraedd y safonau ansawdd angenrheidiol ar gyfer sectorau ailgylchu perthnasol'.

9. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r gwahanol ffrydiau, ar ôl eu casglu, yn cael eu cymysgu wedyn â gwastraff arall neu ddeunydd arall sydd â phriodweddau gwahanol. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r holl sefydliadau ac ymgymeriadau perthnasol sy'n casglu, cludo neu'n cael gwastraff a gasglwyd ar wahân.
10. Mae Rheoliadau Gwastraff yn cyfeirio'n ôl i Erthyglau 4 a 13 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.
11. Mae Erthygl 4 yn pennu'r hierarchaeth gwastraff. Dull yw'r hierarchaeth o osod y blaenoriaethau rheoli gwastraff yn eu trefn briodol gyda'r pwysicaf yn gyntaf, er mwyn anelu at y canlyniad amgylcheddol cyffredinol gorau. Yr hierarchaeth yw: (a) atal gwastraff; (b) paratoi ar gyfer ailddefnyddio; (c) ailgylchu; (d) adennill o fath arall, e.e. adennill ynni; ac (e) gwaredu.
12. Mae Erthygl 13 yn gwneud yn ofynnol bod y DU yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y rheolir gwastraff heb beryglu iechyd a heb niweidio'r amgylchedd ac, yn benodol:
 - (a) heb achosi risg i ddŵr, aer, pridd, planhigion nac anifeiliaid;
 - (b) heb beri niwsans oherwydd sŵn neu arogleuon; a
 - (c) heb effaith niweidiol ar gefn gwlad nac ar fannau o ddiddordeb arbennig.
13. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gorfodi'r rhwymedigaethau casglu ar wahân, trwy hysbysiadau cydymffurfio, atal ac adfer (o dan reoliadau 38, 39 a 40, yn eu trefn, o Reoliadau Gwastraff 2011) ac, yn y pen draw trwy ddwyn achosion troseddol am dorri hysbysiadau o'r fath (o dan reoliad 42 o Reoliadau Gwastraff 2011).

Yr Egwyddorion Allweddol

14. Prif nod Rheoliadau Gwastraff 2011, sy'n gydnaws â nod y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, yw sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau a diogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol.

15. Mae rhoi'r flaenoriaeth i ailgylchu o flaen gwaredu hefyd yn brif nod Rheoliadau Gwastraff 2011; ac yn ôl pob tebyg bydd hynny'n gymorth i gyrraedd y nod uwch o sicrhau'r canlyniad amgylcheddol gorau. Yn yr un modd, mae ailgylchu o ansawdd uchel hefyd yn egwyddor allweddol ac yn llwybr arall tuag at y prif nod o ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol.
16. Pan fo sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol yn casglu unrhyw rai o'r pedwar deunydd gwastraff, neu'r trefnu ar gyfer eu casglu, dylent eu casglu mewn ffordd a fydd yn cynyddu i'r eithaf y meintiau o'r deunyddiau a fydd ar gael i'w hailgylchu.
17. Dylai'r sefydliad neu ymgymeriad perthnasol sicrhau y cesglir y pedwar deunydd gwastraff mewn ffordd sy'n eu cadw ar wahân i'w gilydd ac ar wahân i ffynonellau gwastraff eraill. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan nad oes angen storio ar wahân i wella ansawdd y deunydd eildro.
18. Mae'n ofynnol cadw'r pedwar deunydd gwastraff ar wahân os oes angen hynny er mwyn:
 - a) sicrhau y cyflawnir gweithrediadau adennill ar y gwastraff yn unol ag Erthygl 4 (yr hierarchaeth gwastraff)) ac Erthygl 13 (diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, a
 - b) hwyluso neu wella adennill.
19. Bydd hwyluso a gwella adennill yn cynnwys amcanu nid yn unig i gynyddu'r meintiau o'r pedwar deunydd gwastraff ond hefyd gwella'u hansawdd. Esbonnir hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn y canllawiau hyn.
20. Os yw cadw'r pedwar deunydd gwastraff ar wahân yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r uchod, rhaid i'r bwriad i wneud hynny fodloni hefyd y prawf o fod yn ymarferadwy yn dechnegol, amgylcheddol ac economaidd.
21. Nid yw'r gofyniad i gasglu ar wahân yn golygu bod angen bin ar wahân ar gyfer pob deunydd unigol. Mae modd cyflawni'r casglu ar wahân, er enghraifft, drwy gyfuniad o ddioli gan aelwydydd/busnesau a didoli wrth ymyl y ffordd, yn

ogystal â safleoedd danfon gwastraff a safleoedd amwynder dinesig. Wrth benderfynu ar ddull casglu addas, dylai awdurdodau casglu gwastraff nodi nad oes dim yn Rheoliadau Gwastraff 2011 sy'n lleihau'r ddyletswydd sylfaenol, a bennir yn adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, i drefnu ar gyfer casglu gwastraff aelwydydd a gwastraff masnachol os gwneir cais.

22. Mae'r termau "angenrheidiol", "ymarferadwy", a "pob cam rhesymol" yn cynnwys dyfarniadau ynglŷn â gwerth. Wrth ddyfarnu felly, bydd angen i'r sefydliad neu ymgymeriad perthnasol ystyried yr amodau lleol ac edrych ar yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni mewn sefyllfaoedd cyffelyb mewn rhannau eraill o Gymru neu weddill y DU.
23. Ni ddylid gwneud y dyfarniadau hyn yn fyrbwyll. Os ystyrir bod casglu ar wahân yn angenrheidiol yn unol â rheoliad 13(4) ac 14(2) o Reoliadau Gwastraff 2011, rhaid gwneud yr asesiad dilynol o "ymarferadwyedd" casglu felly mewn modd cadarn. Dylai sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol ystyried nid yn unig a fydd casglu ar wahân yn ymarferadwy erbyn 2015, ond hefyd pa bryd y gallai ddod yn ymarferadwy, ac ar gyfer pa ffrydiau gwastraff, ac ym mha gymdogaethau neu ardaloedd y byddai'n ymarferadwy. Yn hyn o beth, nid yw'r gofynion yn pennu bod rhaid gwneud y cwbl neu ddim. Dylai sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol geisio cyflawni'r canlyniad amgylcheddol gorau sy'n ymarferadwy.
24. Dylai pob sefydliad neu ymgymeriad perthnasol nad yw'n casglu gwastraff papur, metel, plastig neu wydr ar wahân, ystyried yn rhagweithiol pa faint o'r casglu sy'n ymarferadwy ac a fyddai casglu ar wahân yn ychwanegu at faint y deunydd y gellid ei ailgylchu neu'i aildddefnyddio ac yn gwella ansawdd y deunydd eildro. Casglu ar wahân yw'r dull a fyddai fwyaf tebygol o sicrhau gwell canlyniad amgylcheddol trwy ddarparu deunydd eildro o ansawdd uwch,, ond rhaid ystyried y materion hyn fesul achos unigol.
25. Dylid ystyried pob ffrwd wastraff unigol yn ei thro. Dichon y daw rhai sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol i'r casgliad y byddai'n briodol gweithredu dull hybrid: sef casglu rhai ffrydiau, megis gwydr, ar wahân, ond cadw eraill, megis plastig a metel, yn gymysg cyn eu gwahanu yn unol â safonau ansawdd uchel

yn ystod triniaeth ddilynol. Hwyrach y bydd gwahanol fathau o blastig yn teilyngu sylw ar wahân □ gan gynnwys sut y gellir sicrhau ansawdd uchel yn achos pob math unigol, a rhoi sylw ar wahân i'r ystyriaethau YTAE (ymarferadwyedd technegol, amgylcheddol ac economaidd).

26. Nid oes unrhyw ofynion penodol ynglŷn â dogfennu penderfyniadau. Fodd bynnag, yr arfer gorau i sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol fyddai cynnal archwiliad o'u prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan nodi'r dystiolaeth a ddefnyddir a phennu amserlen ar gyfer adolygu. Byddai hynny'n galluogi sefydliadau i gyfiawnhau eu penderfyniadau gerbron preswylwyr neu, os bydd angen, y rheoleiddiwr, a ddarparu sylfaen o dystiolaeth mewn unrhyw her gyfreithiol i'r penderfyniadau hynny. Er enghraifft, mewn sylfaen addas o dystiolaeth gellid cynnwys y canlynol: papurau'r cyngor ynglŷn â phenderfyniadau perthnasol; yr achos busnes ar gyfer unrhyw fuddsoddiad mewnol neu'r fanyleb ar gyfer unrhyw wasanaeth casglu y gwahoddi tendrau i'w ddarparu yn allanol; asesiad o'r dull casglu presennol a hanesyddol; gwybodaeth am berfformiad Cyfleuster Adennill Deunyddiau; gwybodaeth am newidiadau technolegol perthnasol; gwybodaeth am asesiadau economaidd o'r opsiynau; gwybodaeth am effaith amgylcheddol yr opsiynau etc.

27. O dan reoliadau 38 a 39 o Reoliadau Gwastraff 2011, caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ddyroddi naill ai hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad atal i sefydliad neu ymgymeriad sy'n casglu, yn cludo neu'n derbyn papur, gwydr, plastig neu fetel gwastraff yn groes i reoliad 13(2) a 14(1) o Reoliadau Gwastraff 2011. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ddyroddi hysbysiadau adfer, o dan reoliad 40 o Reoliadau Gwastraff 2011, i sefydliad neu ymgymeriad sy'n casglu, yn cludo neu'n derbyn papur, gwydr, plastig neu fetel gwastraff yn groes i reoliad 14(1).

Manylion

Cyflawni'r asesiad

28. Bydd angen i'r holl sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol ystyried sut y bydd y ddyletswydd newydd yn effeithio arnynt cyn 1 Ionawr 2015. Os yw'r sefydliad neu ymgymeriad perthnasol yn dyfarnu, neu os yw o'r farn, nad oes

angen i'r sefydliad neu'r ymgymeriad perthnasol gasglu ar wahân, neu nad yw hynny, ar y pryd, yn ymarferadwy yn dechnegol, yn amgylcheddol neu'n economaidd, dylid adolygu'r penderfyniad hwnnw o bryd i'w gilydd, a gweithredu yn unol â'r canlyniad. Mae cylch oes naturiol i'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith gwastraff. Dylid ystyried y ddyletswydd i gasglu ar wahân yn ystod trafodaethau cynnar ynghylch newidiadau yn y gwasanaeth, er enghraifft: adnewyddu neu estyn contractau presennol, adnewyddu'r fflyd o gerbydau, ymuno mewn partneriaethau rheoli gwastraff gydag awdurdodau eraill, neu'r potensial i fuddsoddi mewn seilwaith neu arferion gwaith newydd. Dros amser, bydd newidiadau mewn technoleg yn effeithio ar angenrheidrwydd yn ogystal ag ymarferoldeb.

Asesu'r hyn sy'n "angenrheidiol": a yw casglu ar wahân yn hwyluso neu'n gwella adennill?

29. Yn ogystal â bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gwastraff yn mynd trwy weithrediadau adennill yn unol ag Erthyglau 3 ac 13 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, rhaid i gasglu ar wahân fod yn angenrheidiol hefyd er mwyn hwyluso a gwella adennill. Mae hwyluso a gwella adennill yn cynnwys y nod allweddol o godi ansawdd y pedwar deunydd gwastraff – er mwyn cyflawni ailgylchu o ansawdd uchel.
30. Ceir casglu dwy neu ragor o'r ffrydiau gwastraff trwy ddefnyddio system gasglu cymysg, os yw'r system honno'n cyflawni ailgylchu o ansawdd uchel. Rhaid dehongli ystyr y meincnod "ansawdd uchel" i olygu bod y deunydd eildro yn gyffelyb o ran ei ansawdd a'i faint i'r hyn a geir trwy gasglu da ar wahân, ac felly yn ddeunydd y gellir ei ddefnyddio gan ail broseswyr i'w droi yn ôl yn gynnyrch o ansawdd cyffelyb i'r hyn ydoedd yn wreiddiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau:
- Defnyddio gwydr a adenillwyd mewn cymwysiadau ail-doddi;
 - Gwahanu plastig a adenillwyd yn bolymerau unigol er mwyn cynhyrchu, er enghraifft, cynwysyddion newydd ar gyfer bwyd a diodydd;
 - Defnyddio papur a adenillwyd i wneud cynhyrchion papur newydd.

31. Yn ddarostyngedig i'r dechnoleg gwahanu sydd ar gael, mae'n bosibl weithiau casglu rhai deunyddiau eildro sych (megis metel a phlastig) yn gymysg â'i gilydd, os trefnir i wahanu'r deunyddiau hynny hyd at safonau ansawdd uchel yn ystod proses ddilynol. Fodd bynnag, oherwydd y gofyniad am ailgylchu o ansawdd uchel, mae'n annhebygol iawn y bydd casglu bio-wastraft a ffrydiau gwastraff 'gwlyb' eraill yn gymysg â ffrydiau sych megis papur, yn llwyddo i gyflawni ailgylchu o ansawdd uchel. Mae'r dechnoleg ar gyfer gwahanu gwydr oddi wrth gydrannau gwastraff eraill yn amrywio'n arwyddocaol ar draws y wlad, a bydd yn parhau i ddatblygu. Fel arfer fodd bynnag, ni fydd cymysgu gwydr yn arwain at ailgylchu'r gydran gyfan fel gwydr o ansawdd uchel. Yn aml hefyd, mae'n peri bod ffrydiau eraill yn cael eu halogi.

32. Gellir ystyried bod casglu gwydr yn gymysg â phapur neu blastig yn gyfystyr ag ailgylchu o ansawdd uchel os gall y sefydliad neu'r ymgymeriad perthnasol ddangos y ceir tunelleddau cyffelyb o'r canlynol:

- ysgyrion gwydr eildro, sy'n addas i'w ddefnyddio fel deunydd crai yn y diwydiant cynhyrchu gwydr neu gymwysiadau ail-doddi eraill;
- papur eildro sy'n addas i'w ddefnyddio fel deunydd crai yn y diwydiant cynhyrchu papur; a
- plastig eildro sy'n addas i'w ddefnyddio fel deunydd crai yn y diwydiant cynhyrchu plastig,

o gymharu â'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gasglu ar wahân.

33. Er mwyn asesu a yw'n angenrheidiol casglu ar wahân, gall sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol gael mynediad i ddata am ansawdd y mewnbwn a'r allbwn o'r holl Gyfleusterau Adennill Deunyddiau (CADau) sy'n trin dros 1,000 o dunelli o ddeunyddiau mewn blwyddyn. Dylai sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol ddefnyddio a dogfennu'r wybodaeth newydd hon, fel un o'r materion i'w hystyried wrth benderfynu ynghylch y system gasglu sy'n angenrheidiol. Bydd y data hyn ar gael o dan ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, a ddaw i rym ym mis Hydref 2014; a bydd

data'r chwarter cyntaf ar gael o Chwefror 2015 ymlaen.

34. Bydd modd i sefydliadau neu ymgymeriadau gymharu safon y deunydd eildro a geir felly, gyferbyn â safon y deunydd eildro y gellir ei gael drwy gasglu ar wahân mewn lleoliadau cyffelyb.. Gallant hefyd gymharu i weld sut y mae'r ailgylchu o safon uchel a gyflawnir yn cymharu â'r ailgylchu a gyflawnir drwy gasglu ar wahân. Gellir cael gwybodaeth ar gael ar wefan Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn www.wrap.org.uk, neu o ffynonellau eraill.

Asesu'r hyn sy'n "ymarferadwy"

35. Pan fo casglu ar wahân yn "angenrheidiol" fel y trafodir uchod, dylai'r sefydliad neu'r ymgymeriad perthnasol fabwysiadu'r canlyniad amgylcheddol gorau sy'n ymarferadwy yn dechnegol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer yr ardal a wasanaethir.

36. Mewn achos diweddar² a oedd yn ymwneud â her i'r ddyletswydd gyfreithiol a osodir ar sefydliadau ac ymgymeriadau perthnasol o gasglu gwastraff ar wahân, diffiniwyd 'practicable' ('ymarferadwy') gan y llys. Dywedwyd bod 'practicable' mewn iaith gyffredin, yn golygu mwy na chyfleus, defnyddiol neu hyd yn oed ymarferol; yn hytrach mae'n golygu dichonadwy neu'n cyfleu y gellir gwneud rhywbeth.

Ystyried ymarferadwyedd technegol, amgylcheddol ac economaidd

37. Wrth ystyried yr hyn sy'n ymarferadwy, dylai'r sefydliad neu ymgymeriad perthnasol anelu at y canlyniad amgylcheddol gorau ac ystyried beth sy'n ymarferadwy yn dechnegol, amgylcheddol ac economaidd. Yn y cyd-destun hwn, mae i "ymarferadwyedd" ("practicability") ystyr benodol a bennir ym mharagraff 4.4 o ganllawiau 'r Comisiwn Ewropeaidd³.

38. Nid yw'r diffiniad o ymarferadwyedd yn caniatáu dewisiadau ynghylch dulliau casglu i aelwydydd a busnesau.

² 'R (on the application of UK Recyclate) v Secretary of State for the Environment, Food and Rural Affairs and the Welsh Ministers [2013] EWHC 425 (Admin); gweler paragraff 18 o'r dyfarniad.

³ Canllawiau ar ddehongli darpariaethau allweddol Cyfarwydddeb 2008/98/EC ar wastraff. Yn: <http://ec.europa.eu/environment/waste/framework/guidance.htm>

Ystyr 'ymarferadwy yn dechnegol' yw fod modd cyflawni casglu ar wahân drwy system sydd wedi ei datblygu yn dechnegol ac y profwyd ei bod yn gweithio yn ymarferol.

Ystyr 'ymarferadwy yn amgylcheddol' yw fod gwerth ychwanegol buddion ecolegol yn cyfiawnhau effeithiau amgylcheddol negyddol posibl casglu ar wahân (e. e. allyriadau ychwanegol o drafnidiaeth)

Mae 'ymarferadwy yn economaidd yn cyfeirio at gasglu ar wahân nad yw'n achosi costau gormodol o gymharu â thrin ffrwd gwastraff heb ei gwahanu, o ystyried gwerth ychwanegol adennill ac ailgylchu ac egwyddor cymesuredd.

39. Caiff sefydliadau ac ymgymeriadau perthnasol, gan gynnwys Awdurdodau Casglu Gwastraff, ystyried y materion a restrir isod (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol):

a. Gwahaniaethau mewn costau cyfalaf a chostau rhedeg rhwng dulliau casglu ar wahân a chasglu cymysg

Un mater tebygol i'w ystyried ynglŷn â newid i gasglu ar wahân ar 1 Ionawr 2015 yw'r costau a fydd yn gysylltiedig â newid y contractau a'r seilwaith presennol. Mae'r gost o newid contractau yn fater sy'n codi wrth benderfynu ynghylch ymarferadwyedd; fodd bynnag, gallai'r arbedion dilynol (yn deillio o'r incwm uwch a geid am ddeunyddiau eildro o ansawdd gwell) olygu y byddid wedi adennill costau'r newid o fewn cyfnod cymharol fyr.

Pan fo casglu gwastraff wedi ei gontractio allan, dylai'r criteria cymhwyso a'r fanyleb ar gyfer tendrau fod yn ddigon hyblyg fel rheol i ganiatáu casglu ar wahân os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau ailgylchu o ansawdd uchel. Bydd hyn yn galluogi'r farchnad i ddylanwadu ar yr asesiad o'r "ymarferadwyedd technegol, amgylcheddol ac economaidd" – "YTAE".

Wrth wneud penderfyniad ynghylch ymarferadwyedd, dylai sefydliadau ac ymgymeriadau a ymunodd mewn contractau ar ôl cyflwyno Rheoliadau Gwastraff 2011, gadw mewn cof nad yw hynny, yn ei hunan, yn cyfiawnhau

parhau i gymysgu gwastraff. Rhaid ystyried costau newid o wasanaeth ailgylchu cymysg i wasanaeth ailgylchu sy'n casglu ar wahân ar sail rhinweddau'r newid, heb ystumio'r penderfyniad oherwydd unrhyw faterion contractiol neu ymrwymadau eraill yr ymunodd y sefydliad neu'r ymgymeriad ynddynt ar ôl cyflwyno Rheoliadau Gwastraff 2011. Mae paragraff 4.4 yng nghanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu rhai sylwadau buddiol ar hyn. Dywed fod *"ymarferadwy yn economaidd" yn cyfeirio at gasglu ar wahân nad yw'n achosi costau gormodol o gymharu ffrwd gwastraff nas gwahanwyd, o ystyried y gwerth ychwanegol a geir o adennill ac ailgylchu ac egwyddor cymesuredd."*

Cynghorir sefydliadau ac ymgymeriadau perthnasol i ystyried yn ofalus iawn unrhyw weithredu arfaethedig a allai amharu ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd newydd o ddechrau Ionawr 2015 ymlaen, e.e. wrth ystyried ymuno mewn contract, neu estyn unrhyw gontract, gyda gweithredwyr CADau.

b. Tagfeydd ar strydoedd, fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

Mae'n bosibl na fydd systemau didoli llawn ar ymyl y ffyrdd, neu fathau eraill o systemau casglu ar wahân, yn ymarferadwy ar gyfer casglu gwastraff mewn a strydoedd gorllawn, er bod rhai awdurdodau sy'n didoli ar ymyl ffyrdd wedi canfod ateb i'r broblem honno. Pan nad oes digon o le i gynwysyddion, neu pan ddefnyddir sgydiau ar gyfer gwastraff, gall hynny hefyd gyfyngu ar y cyfleoedd i gasglu gwastraff ar wahân, o aelwydydd ac o fusnesau.

Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai sefydliadau neu ymgymeriadau perthnasol ystyried pa mor ymarferadwy fyddai amseru'r casgliadau yn ofalus, gosod manau ailgylchu ar y strydoedd a gwahanu'r deunyddiau eildro yn rhannol, er enghraifft gwahanu gwydr oddi wrth ffrydiau gwastraff eraill.

Dylai'r sefydliad neu ymgymeriad perthnasol ystyried hefyd a fyddai'n ymarferadwy defnyddio gwahanol ddulliau casglu mewn gwahanol rannau o'r ardal a wasanaethir, ac unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud yn yr amseroedd casglu.

c. Cymunedau gwasgaredig

Hwyrach na fydd yn ymarferadwy yn economaidd defnyddio'r cerbydau a'r seilwaith presennol i gasglu ffrydiau gwastraff wedi eu gwahanu'n llawn o aelwydydd a busnesau mewn ardaloedd tra gwasgaredig. Mae'n debygol, fodd bynnag, y bydd cyfleoedd newydd yn codi wrth i'r cerbydau presennol gael eu disodli gan rai newydd sy'n casglu'r gwahanol ffrydiau i gyd ar un tro.

d. Addas yn dechnegol i'w hailgylchu

Wrth i'r arferiad o ailgylchu ehangu, mae marchnadoedd newydd ar gyfer deunydd eildro wedi ymddangos. Disgwylir i'r duedd honno barhau. Ymhen amser, bydd ailgylchu amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau plastig, er enghraifft, potiau, tybiau, hambyrddau a ffilm, yn ymarferol i sefydliadau ac ymgymeriadau perthnasol mewn rhagor o ardaloedd.

Cwestiynau ymgynghori

C1 - Ydych chi o'r farn bod y canllawiau statudol yn nodi'n glir sut, ym marn Llywodraeth Cymru, y dylai sefydliadau sy'n casglu, yn cludo neu'n derbyn gwastraff papur, metel, plastig a gwydr gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a bennir yn rheoliadau 13 a 14 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012? Os nad ydych, ewch ati'n gryno i esbonio pa rannau o'r canllawiau statudol, yn eich barn chi, sydd heb fod yn glir neu y dylid eu newid, gan nodi, lle bo hynny'n berthnasol, o dan ba sail gyfreithiol y dylid gwneud y newid hwnnw neu'r newidiadau hynny.

C2 - Rydym wedi gofyn un cwestiwn penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.